



Bydd y cwricwlwm newydd yn chwarae rôl hollbwysig o ran helpu i wireddu uchelgais Cymraeg 2050. Mae'r egwyddor o gael un continwwm dysgu yn rhan annatod o'r hyn yr ydym am ei gyflawni. Bydd yr egwyddor yn gymwys o ran dysgu'r Gymraeg a Saesneg. Un cwricwlwm fydd i Gymru, i'w ddefnyddio mewn lleoliadau meithrin a gyllidir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog.

O ran Saesneg, y nod yw y bydd dysgwyr o bob ysgol yn cyrraedd yr un man ar y continwwm erbyn diwedd yr ysgol gynradd. O bwysu a mesur, rydym yn cydnabod nad yw geiriad y cynnig i osod "Dyletswydd ar bob ysgol a Lleoliad Meithrin a Gyllidir i addysgu Saesneg, fel elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd i Gymru"¹ yn adlewyrchu ein bwriad. Byddai'n arwain at ganlyniadau anfwriadol o ran ysgolion cyfrwng Cymraeg a lleoliadau meithrin a gyllidir fel y Cylchoedd Meithrin, sy'n trochi plant yn y Gymraeg.

I fod yn hollol glir felly: ein cynnig yw y bydd y cwricwlwm newydd yn parhau i alluogi ysgolion a lleoliadau, fel y Cylchoedd Meithrin, i drochi plant yn y Gymraeg yn llwyr.

Fe sicrhawn y bydd unrhyw gynigion deddfwriaethol ynghylch Saesneg yn y cwricwlwm newydd yn adlewyrchu hyn.

Mae dolen at y datganiad hwn wedi'i hychwanegu at y Papur Gwyn i egluro'r safbwynt hwn.

Parhawn i gydweithio â'n rhanddeiliaid.

¹ [Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol](#), tudalen 35